Adroddiad i'r Cyngor Sir

Dyddiad y Cyfarfod 18 Mai 2021

Aelod / Swyddog Arweiniol Y Cyng. Julian Thompson-Hill

Awdur yr Adroddiad Sophie Vaughan, Arbenigwr Talu a Gwobrwyo a Catrin Roberts, Rheolwr AD

Teitl Datganiad Polisi Tâl 2021/22

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi datganiadau polisi tâl. Mae'n rhaid i'r datganiadau hyn fynegi polisïau'r awdurdod ei hun ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â chyflog ei weithlu, yn arbennig ei uwch staff (neu "brif swyddogion"), a'i weithwyr ar y cyflogau isaf. Mae'n rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiadau Polisi Tâl bob blwyddyn, a'u cyhoeddi ar y wefan berthnasol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor Llawn i'r Datganiad Polisi Tâl sydd ynghlwm, a ddrafftiwyd yn unol â gofynion 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011 ac sy'n cynnwys yr holl drefniadau tâl presennol ar gyfer y grwpiau gweithlu o fewn y Cyngor, gan gynnwys y Prif Swyddogion a'r gweithwyr ar y cyflogau isaf.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn cytuno ag argymhelliad y Panel Tâl Uwch Arweinyddiaeth o ran y newidiadau i Bolisi Tâl 2021/22 (copi yn Atodiad A).

4. Manylion yr Adroddiad

Datganiad Polisi Tâl

Dan Adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972 mae gan y Cyngor 'y pŵer i benodi swyddogion ar delerau ac amodau rhesymol o'r math y mae'r Cyngor yn eu barnu'n addas'. Mae'r datganiad Polisi Tâl hwn yn amlinellu ymagwedd y Cyngor at dâl yn unol â gofynion a38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol Cymru a Lloegr gynhyrchu a chyhoeddi Datganiad Polisi Tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n manylu ar y canlynol:

a) Polisïau'r Cyngor ar bob agwedd ac elfen o dâl Prif Swyddogion
b) Dull y Cyngor o gyhoeddi a chaniatáu mynediad at wybodaeth sy'n ymwneud â phob agwedd ar dâl Prif Swyddogion
c) Polisïau'r Cyngor ar dâl ei weithwyr sydd ar y cyflogau isaf (gan gynnwys y diffiniad a fabwysiadwyd a'r rhesymau drosto)
d) Y berthynas rhwng tâl ei Brif Swyddogion a gweithwyr eraill.

Mae'r Polisi Tâl wedi'i adolygu ar gyfer 2019/20 a'r newidiadau canlynol wedi'u gwneud:

Dyfarniadau Cyflog Cenedlaethol

Mae'r Polisi Tâl wedi'i ddiweddaru i ystyried y sefyllfa bresennol o ran y dyfarniadau cyflog cenedlaethol nad ydynt wedi cael eu cytuno eto ar gyfer 2021/22.

Dyfarniad Cyflog y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddogion

Mae'r Polisi Tâl wedi'i ddiweddaru i ystyried y sefyllfa bresennol o ran y dyfarniadau cyflog cenedlaethol Prif Weithredwyr a Phrif Swyddogion, nad ydynt wedi cael eu cytuno eto ar gyfer 2021/22.

Perthnasedd Tâl o fewn y Cyngor

Mae paragraff 7.4 wedi'i ddiweddaru gyda'r gymhariaeth ddiweddaraf rhwng y rhai sydd ar y cyflogau isaf a chyflog y Prif Weithredwr.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd polisi tâl teg a thryloyw yn cyfrannu at weithlu brwdfrydig fydd, yn ei dro, yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ni cheir goblygiadau ariannol newydd yn sgil y Polisi Tâl hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Mae'r Asesiadau o'r Effaith ar Les ar gyfer y Polisi Tâl ynghlwm. Nid oes unrhyw fater yn codi o'r naill asesiad.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Ymgynghorwyd â Phennaeth y Gyfraith, AD a'r Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Adran 151 i sicrhau bod holl ofynion a38 (1) y Ddeddf Lleoliaeth wedi eu hymgorffori.
Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Bydd y Cyngor yn torri ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r Ddeddf Lleoliaeth os nad yw'n mabwysiadu'r Polisi Tâl.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

A38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011 ac adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n cynnwys y pŵer i benodi swyddogion.